Cofnodion Cyfarfod 10fed o Ebrill 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.

1.0 YN BRESENNOL

Ken Brown – Cadeirydd
Lena Ashley
Siân Gwenllïan
Pat Jones
George Smith
Daniel Williams
Ronald Gray
Iestyn Harris
Eluned Owen

2.0 GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL

2.1 Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Ken Brown drwy estyn croeso i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddodd nad oedd Etholiad ar gyfer y Cyngor Cymuned a bod 3 sedd wag a olygai bod angen hysbysiad cyhoeddus o'r ffaith a mynd drwy'r broses unwaith eto. Cymerodd y cyfle i ddatgan ei werthfawrogiad a diolch i'r Cyngor am eu cefnogaeth barod dros y cyfnod ei gadeiryddiaeth sef dwy flynedd.

2.2 Llongyfarchwyd Ann y cyfieithydd ar lwyddiant ei merch Alice ar y Rhaglen "The Voice" y BBC dros y penwythnos.

2.3 Cyflwynwyd y Cadeirydd i'r Cyngor Ms. Ellen Thirsk, Rheolwr Adnoddau Dynol a Mr Dafydd Arfon Jones Rheolwr Caergylchu Antur Waunfawr a'u gwahodd i roi cyflwyniad ar weithgareddau Antur Waunfawr.

3.0 ANTUR WAUNFAWR

3.1 Fe gymerodd Mr Dafydd Arfon Jones y cyfle i longyfarch y Cyngor ar lwyddiant ysgubol y Cyngor ar weddnewidiad y Neuadd Goffa.

3.2 Rhoddodd eglurhad manwl o bwrpas yr Antur; Menter Gymdeithasol yw, sydd yn elusen a chwmni cyfyngedig drwy warrant gyda'r bwriad i greu cyfleoedd waith a hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r Antur yn gyflogwr cynaliadwy ac yn gwarchod yr amgylchedd, diwylliant ac iaith.

3.3 Mae'r fenter yn darparu gwasanaethau fel, ailgylchu ynghyd a Cyngor Gwynedd, ail ddefnyddio dillad ac ailgylchu dodrefn yn y Warws Werdd . Siop Grefftau ar safle Bryn Pistyll a Chaffi Blas y Waun ar yr un safle a hCynllun Cartrefi.

3.4 Pwrpas y cyflwyniad oedd cyflwyno'r gwasanaeth Ail Ddefnyddio Dillad: mae 3% o finiau sbwriel yn ddillad ac felly golygai hyn bod 814 tunnell ar gael i'w ailgylchu ac ailddefnyddio yng Ngwynedd pob blwyddyn. Llynedd casglwyd 116 tunnell a hyd yma eleni mae 117 o dunelli wedi ei gasglu.

3.5 Rhoddwyd eglurhad o sut mae'r Antur yn ail-ddefnyddio'r dillad; unai drwy'r Warws Werdd neu fel rags. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ddosbarth pamffledi a bagiau chasglu dillad bob wythnos yng Ngogledd Gwynedd. Bydd bagiau yn cael eu dosbarthu yn ardal y Felinheli diwedd y mis.

Heather Lynne Jones

3.6 Pwrpas y cyflwyniad hefyd oedd gwahodd y Cyngor i weithio a'r Antur yn eu menter o ailgylchu dillad. Mae modd hefyd i fudiadau'r Ardal elwa o'r fenter drwy gasglu dillad i'w hailddefnydd/ailgylchu ar ran Antur Waunfawr a derbyn tâl (ar gyfartaledd £300 i bob tunnell).

3.7 Dywedwyd bod y bagiau yn cael eu casglu gan gerbydau gwyn sydd wedi eu dynodi gyda logo Antur Waunfawr, yn anffodus mae achos wedi bod lle'r oedd eu bagiau wedi eu cymryd gan gludwyr eraill.

3.8 Gofynnwyd a oedd gwasanaeth gardd yn parhau, atebwyd yn anffodus nid oedd yn bodoli rhagor a hyn oherwydd bod y gweithwyr yn heneiddio.

3.9 Diolchodd y Cadeirydd i Ellen a Dafydd Arfon am eu cyflwyniad a'u hamser a byddai mewn cysylltiad i ystyried a thrafod menter safle ailgylchu o fewn y pentre'.

4.0 YMDDIHEURIADAU

Gerald Roberts Gareth Griffiths

4.1 Eglurodd y Cadeirydd bod Pat White yn parhau i fod yn wael a gobeithir gwellhad buan iddi; datganodd hefyd nad oedd ei phapurau etholiad wedi eu cyflwyno. Rhoddwyd eglurhad pellach ynglŷn â'r seddi gwag ar y Cyngor a'r broses gyfreithiol sydd angen ei ddilyn ar gyfer eu llenwi.

4.2 Rhoddwyd ystadegau o bresenoldeb pob aelod, ni chafwyd presenoldeb 100% gan neb eleni. Roedd y Cynghorydd Roscoe bellach wedi ei ddiarddel o fod yn gynghorydd oherwydd ei absenoldeb; nid yw ei bapurau etholiad wedi eu cyflwyno chwaith.

4.3 Cymerwyd y cyfle i gyflwyno'r Clerc newydd i'r aelodau ac fe gyflwynodd yr aelodau eu hunain i'r Clerc.

5.0 DATGAN DIDDORDEB - Dim

6.0 COFNODION

6.1 Cyflwynwyd Cofnodion 13eg o Fawrth 2012.

6.2 Gwirio eitem 10 or cofnodion ynglŷn â bod llefydd yn yr ysgol yn llawn yn gywir o bwynt beth a gyhoeddwyd yn y cyfarfod; er hynny fe sicrhawyd y Cyngor gan y Cynghorydd Siân Gwenllïan bod 30 o lefydd gwag ar gael yn yr ysgol.

Cynigodd y Cynghorydd Daniel Williams, ac eiliwyd y Cynghorydd Lena Ashley i dderbyn y cofnodion gan gynnwys yr uchod fel rhai cywir.

7.0 MATERION YN CODI

7.1 Gwefan Cymuned y Felinheli

7.1.1 Fe roedd 45,578 o "hits" ar y wefan ym mis Mawrth.

7.1.2 Yn anffodus nid oedd neb yn bresennol i gyflwyno fwy o wybodaeth.

7.2 Cymunedau Cynaliadwy

7.2.1 Rhoddwyd adroddiad gan y Cynghorydd Siân Gwenllïan - roedd y Grŵp llywio yn cyfarfod yn rheolaidd gyda 6 aelod o'r Cyngor Cymuned yn aelodau. Fel is-grŵp o'r brîf grŵp mae holiadur wedi ei ddylunio ynglŷn â cheisio barn ar y syniad o Drafnidiaeth Cymunedol. Mae modd newid syniad.

7.2.2 Mae angen cymorth i ddosbarthu'r holiaduron ynghyd a'u llenwi ar yr un pryd. Gofynnir am farn ar 4 brosiect: i. Trafnidiaeth Cymunedol; ii. Paneli Solar - ynni gwyrdd ar gyfer adeiladau cyhoeddus e.e. y Capel, mae modd codi incwm gyda'r prosiect hwn; iii. Creu canolfan ailgylchu - modd codi incwm yma hefyd, iv. Prosiect tyfu a gwerthu llysiau.

7.2.3 Holiaduron yn barod ar gyfer eu dosbarthu'r wythnos nesaf, efallai byddai modd pennu noson ar gyfer y gwaith neu gyfnod ar gyfer cwblhau'r gwaith.

7.2.4 Cynghorydd Daniel Williams a Chynghorydd Lena Ashley yn barod i roi cymorth.

7.2.5 Gofynnwyd y Cynghorydd Ronald Gray os bydd rhai Saesneg a Chymraeg i'w cael - atebodd y Cadeirydd mae dwyieithog fydd yr holiaduron.

7.3 Biniau Ailgylchu

7.3.1 Mr Dafydd Arfon Jones o Antur Waunfawr yn cytuno a'r fenter ac mae angen symud ymlaen gydag ail gydio mewn trafodaethau a Steffan Jones Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd.

8.0 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

8.1 Dim i'w adrodd – credu bod yr holl wybodaeth wedi ei gyflwyno i Mrs Nia Davies Cynllunio Cyngor Gwynedd.

9.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

9.1 Cynghorydd Daniel Williams wedi siarad â'r pensaer. Nid roedd cyfarwyddiadau wedi ei roi i'r adeiladwr i adeiladu'r stepen fel sy'n bodoli.

9.2 Syniad o "railings" ddim yn un ymarferol oherwydd mae'r risg ohonynt yn cael ei gwrthtaro yn uchel.

Cynghorydd Daniel Williams ac Alun Meirion i gyfarfod ar ôl cyfarfod y Cyngor dibynnu ar yr amser.

9.3 Swydd Gofalwr - ceisiadau i law, Panel Cyfweld i gyfweld ar yr 17eg o Ebrill 2012 am 7 yn yr hwyr yn y Neuadd Goffa.

Heather Lynne Jones

9.4 Y Panel gyfweld fydd y Cynghorwyr Ken Brown, Gareth Griffiths ac Iestyn Harris.

9.5 Dyddiadau llogi'r Neuadd Goffa i fod yn rhan o Swydd Ddisgrifiad y Gofalwr.

9.6 Asesiadau risg - Cynghorydd Daniel Williams yn eu paratoi. Gofynnwyd a byddai'r Clerc yn gallu rhoi cymorth.

9.7 Sustem Larwm Tân - Allweddi gan y Cynghorydd Daniel Williams a fydd yn trefnu i brofi'r sustem yn rheolaidd, cysylltiad wedi ei wneud ac Ystafell Rheoli'r Gwasanaeth Tân.

9.8 Trefniant Cyfarfodydd y Cyngor a'r Clwb Ieuenctid - ar hyn bryd mae sŵn gweithgareddau'r Clwb Ieuenctid yn gallu amharu ar weithgaredd y Cyngor Cymuned yn eu cyfarfodydd misol.

Y Cyngor i ystyried newid noson yn y cyfarfod nesaf fydd hefyd y cyntaf wedi'r etholiad sef y Cyfarfod Blynyddol.

10.0 MATERION ARIANNOL

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol ar gyfer mis Mawrth 2012 ynghyd a'r cyfrifon Incwm a Gwariant am 2011-2012.

10.2 Gofynnwyd beth oedd y diweddarach ynglŷn â'r Cae Amlbwrpas gan fod £1000 wedi ei glustnodi ar ei gyfer.

10.3 Dywedodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan ei bod wedi gofyn am fynychu eu cyfarfodydd er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa bresennol.

10.4 Deallir nad oes Cadeirydd ar hyn o bryd; Cadeirydd y Cyngor am gynnal trafodaeth ac Iolo Jones ynglŷn â'r mater.

Cynghorydd Siân Gwenllïan yn cynnig cadw'r swm wedi ei glustnodi ar hyn o bryd a'r Cynghorydd Daniel Williams yn eilio'r cynnig.

10.5 Oherwydd yr amgylchiadau gyda'r Cynghorydd Meirion Roscoe bydd rhaid meddwl am berson arall i ymdrin â marchnata a'r wefan er mwyn sicrhau incwm uniongyrchol i'r Cyngor oddi wrth hysbysebion ar y wefan.

10.6 Mae angen i'r cyfrifon gael eu harchwilio cyn diwedd mis Mehefin 2012, yn ffodus mae'r cyfrifon yn barod ar gyfer eu harchwiliad mewnol nawr.

Cynigwyd Y Cynghorydd Iestyn Harris bod y cyfrifon sydd wedi eu cyflwyno yn gywir, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Daniel Williams.

10.7 Er gwybodaeth hysbysebwyd y Cyngor Gan Mr Wynne Barton bod gweithredoedd y Fynwent ganddo ef, gweithredoedd y Neuadd gan y Cynghorydd Iestyn Harris a bod Prydles y Rheilffordd gydag Emyr Thomas.

10.8 Diolchwyd iddo am ei waith trylwyr.

Heather Lynne Jones

Gadawodd y Cynghorydd Eluned Owen y cyfarfod am 8:25 yr hwyr.

11.0 GOHEBIAETH

11.1 **Llywodraeth Cymru**:Town and Country Planning Act 1990-Section 247, The Stopping up of Highways (11 Caernarfon Road, Y Felinheli, Gwynedd) Order 2012 – bellach mae'r ardal ger 11 Ffordd Caernarfon bellach wedi ei ddiddymu fel priffyrdd.

11.2 **Un Llais Cymru** - mae aelodaeth angen ei adnewyddu a'r gost eleni fydd £299, codiad o 3% o'r llynedd.

Penderfynwyd ymaelodi eto eleni: cynigwyd gan y Cynghorydd Daniel Williams ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Iestyn Harris.

11.3 Y posibilrwydd yw bydd aelodau newydd o'r Cyngor angen hyfforddiant; disgwylir hyd nes y cyfarfod blynyddol i ystyried y mater ymhellach.

11.4 Gofynnodd y Cynghorydd Daniel Williams i Mr Wynne Barton os oedd modd cael enwau'r cynghorwyr oedd wedi derbyn hyfforddiant er mwyn iddo fedru symud ymlaen a chreu Matrix hyfforddiant.

11.5 E-bost Sara Catrin Jones Menter a Busnes - hyfforddiant cynllunio busnes wedi ei drefnu ar gyfer yr 23ain o Fai 2012 yn y Neuadd Goffa i gychwyn am 5 yn y pnawn.

11.6 Bydd y Cynghorwyr canlynol yn mynychu'r hyfforddiant: Ken Brown, Siân Gwenllïan, Pat Jones, Lena Ashley a Daniel Williams.

Y Clerc i hysbysu'r hyfforddiant o dan Newyddion Cymunedol yr Herald ac i anfon gwahoddiad i Bartneriaeth y Felinheli.

Gadawodd y Cynghorydd Ronald Gray y cyfarfod am 8:30 yn yr hwyr.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

12.1 Y Cynghorydd Daniel Williams am newydd y "timer" gan fod y tywydd bellach yn sych.

12.2 Angen gwirfoddolwyr i edrych ar ôl y potiau blodau.

12.3 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r potiau a phenderfynwyd edrych i mewn i dalu am wasanaeth cynnal i'r potiau.

Y Clerc i wneud ymholiadau a Menter Fachwen ac os yn bosib trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd a hwythau i drafod y mater yn bellach

13.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

13.1 Ysgol Y Felinheli, Y Wern, Y Felinheli. Gwaith peirianyddol i Lefelu Cae Pêl Droed ynghyd a Gosod Ffens 1.2 medr a Ffens 5 medr o Uchder - trafodwyd y mater a phenderfynwyd peidio gwrthwynebu.

Dim gwrthwynebiad – y Cyngor yn unfrydol.

14.0 NEUADD YR EGLWYS

14.1 Dim i'w ychwanegu ar y mater ar hyn o bryd.

15.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

15.1 Dim adroddiad neb yn bresennol oherwydd gwaeledd.

15.2 Y Cadeirydd am alw yng nghartref y Cynghorydd Pat White ar gyfer codi llyfrau'r Fynwent oddi yno.

16.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO/LON LAS

16.1 Roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr oddi wrth Mr Fred Horrocks ynglyn a chyflwyno camerâu cylch caeedig yn gofyn a fyddai modd cael cyfarfod safle a thrafodaeth ar y mater. Roedd y Cadeirydd yn barod i wneud hyn gyda Cynghorydd arall yn bresennol.

16.2 Awgrymodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan bod amser a dyddiad yn cael ei drefnu, dangosodd y Cynghorydd Iestyn Harris a'r Cynghorydd Daniel Williams eu bod yn barod i ymweld gyda'r Cadeirydd.

Y Cadeirydd i gysylltu â Mr Horrocks i drefnu dyddiad ac amser.

17.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS

17.1 Gwyriad Arfaethedig Tan y Maes i Garreg Goch (LLC 10) - mae'r llwybr cyhoeddus yma yn cael ei hollti gan y ffordd osgoi ac nid yw wedi ei ddefnyddio ers peth amser ac ni ellir ei ddefnyddio ar hyn o bryd; oherwydd hyn efallai byddai'n well ei ddileu yn gyfan gwbl.

18.0 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

18.1 **Codi Tai yn y Wern** - Cyfarfod safle wedi ei gynnal gyda Swyddog o'r adain Priffyrdd yn dilyn Cais Cynllunio adeiladu 54 Tŷ yn y Wern. Yr adain Priffyrdd yn cynnal arolwg trafnidiaeth ar yr ardal er mwyn rhoi cynllun trafnidiaeth gerbron y pwyllgor cyn bod penderfyniad.

18.2 O dan sylw oedd llif traffic ac ni fyddai'r nifer yn cyfiawnhau gosod croesfan belican ond efallai gosod "plateau" lle byddai croesi yn cael ei ganiatáu.

18.3 Gosod Cysodfan Bws ochr y stad er mwyn pigo i fyny teithwyr wedi i'r bws ymweld a'r Wern.

18.4 Mae gweledegdd hefyd yn gonsyrn ac er mwyn gwella'r sefyllfa awgrymir gosod llinellau melyn dwbl yn y pant.

18.5 Ni fydd y cais yn cael ei drafod dydd Llun nesaf.

18.6 Angen cofnodi bod cyfarfod llwyddiannus wedi ei gynnal yn yr ysgol ynglŷn â'r mater.

18.7 **Fflam Olympaidd** - Cais am arian wedi bod yn llwyddiannus, £1500 wedi ennill gogyfer baneri a defnydd celf ar gyfer dylunio posteri ac ati.

18.8 Bydd y banneri i fyny am gyfnod o bythefnos ar gyfer Gŵyl y Felin ac Eisteddfod yr Urdd. Coch, Gwyn a Gwyrdd fydd lliwiau'r banner.

18.9 Gofynnodd y Cynghorydd Lena Ashley os fyddai modd defnyddio hen Faner Sir Gaernarfon – nid oedd hyn y bosib.

18.10 Gan fod **Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd** o fewn y pentref wedi cyrraedd eu targed o £8000 gofynnwyd a byddai modd anfon llythyr diolch i'r y pwyllgor ar ei gwaith.

Y Clerc i anfon llythyr diolch at Mrs Angharad Harris a'r pwyllgor.

18.11 **Safle Moriah** bellach bron wedi ei gwblhau, angen gosod y plac, gofynnwyd a byddai modd anfon llythyr o ddiolch at Mr Pete Simpson Cyngor Gwynedd am ei waith gyda'r prosiect.

Y Clerc i anfon llythyr at Mr Peter Simpson yn diolch iddo am ei waith.

18.12 **Y Lon Las Newydd** o Rowen i Ganol y Pentre' yn symud ymlaen yn dda.

18.13 **Ardal Llwybr cyhoeddus Rhif 4** Lon Penbryn i Allt Gam, mae'r goedlan ger Gwylan Uchaf yn gonsyrn, gwaith torri coed wedi bod yn yr ardal go gyfer gwneud cais cynllunio i adeiladu annedd yno. Angen siarad â Swyddogion adain Lwybrau ar y mater.

Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn ag oes modd cadw'r ardal rhag codi adeilad.

18.14 Bydd dim Etholiad Cyngor Gwynedd eleni gan nad oedd ymgeisydd arall a bydd yn gwasanaethu ar y Cyngor Sir am gyfnod o 5 mlynedd.

Cyflwynodd y Cadeirydd Llongyfarchiadau'r Cyngor i Siân am ddod yn Gynghorydd Sir unwaith eto.

18.5 Mae problem ymsuddiant ar Lon Rhes Elen yn codi gofid iddi ynghyd a chyflwr y wal gynnal ger Tai Gwelfor, gofynnwyd a oes modd llythyru'r Adain Priffyrdd unwaith yn rhagor ar y mater.

Y Clerc i lythyru'r Adain Priffyrdd ar y mater.

18 UNRHYW FATER ARALL

18.15 **Fflam Olympaidd** - Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu gweithdy ynglŷn â'r Fflam gyda chynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys.

18.16 Bydd cymdaith (convoy) oddeutu 22 cerbyd yn cynnwys cerbyd Coca Cola, Samsung a Lloyds TSB, ond yn cyrraedd am oddeutu 4:30 yn y pnawn bydd cymdaith bach lle gwelir dawnsio stryd.

18.17 Efallai bydd pobl ardal Bethel yn ymweld â'r Felinheli yn hytrach na mynd lawr i Gaernarfon; bydd rhaid bod yn wyliadwrus ynglŷn â thrafferthion parcio a thraffig. Bydd traffig yn cael eu gwahardd drwy Ffordd Bangor am gyfnod. Mater Cyngor Gwynedd a'r heddlu fydd hyn. Bydd 3 paramedig ag ambiwlans yn teithio gyda'r cymdaith.

18.18 Gofynnwyd a byddai modd cael staff Cymorth Cyntaf ar gael oherwydd bydd pwysau ar yr awdurdodau.

18.19 Bydd tocynnau yn rhad ac am ddim ar gael i'r Cyngerdd ar yr 28ain o Ebrill 2012. Bydd tâl o £10 am barcio. Mae 7000 o docynnau ar ôl ac os bydd trafferthion mae modd cael tocyn drwy wirfoddoli i gasglu sbwriel fel y gwnaethpwyd o'r blaen adeg y "Big Weekend".

18.20 Y prif Grŵp a fydd yn perfformio bydd "Kids in Glass Houses".

18.21 Bydd y Cadeirydd yn cynnal trafodaeth ynglŷn â'r mater gyda Gŵyl y Felin.

18.22 **Jiwbilî** - Gofynnodd y Cadeirydd barn y Cyngor ynglŷn â chyflwyno cwpan jiwbilî i blant yr ysgol. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd gadael y mater i'r ysgol.

Daeth Cyfarfod i ben am 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod:..... Dyddiad:.....

Heather Lynne Jones